

Gwybodaeth Etholiadau Bwrdeistref Sirol 5^{ed} Mai 2022.



Cymhwyster

I fod yn gymwys i fod yn ymgeisydd mewn etholiad llywodraeth leol (ar y diwrnod y cewch eich enwebu ac ar y diwrnod pleidleisio):

–rhaid i chi fod o leiaf yn 18 oed

–rhaid i chi fod yn ddinesydd cymwys y Gymanwlad yn ddinesydd unrhyw aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd neu'n ddinesydd tramor cymwys,

–rhaid i chi fodloni o leiaf un o'r pedwar cymhwyster canlynol

- Yr ydych wedi'ch cofrestru, a byddwch yn parhau i fod, fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer ardal yr awdurdod lleol yr ydych yn dymuno sefyll ynddi.
- Rydych wedi bod yn berchen ar neu'n meddiannu fel perchennog neu denant unrhyw dir neu safle arall yn ardal yr awdurdod lleol am y cyfan o'r 12 mis cyn diwrnod eich enwebiad a diwrnod yr etholiad.
- Mae eich prif le gwaith neu'ch unig le gwaith yn ystod y 12 mis cyn diwrnod eich enwebiad a diwrnod yr etholiad wedi bod yn ardal yr awdurdod lleol.
- Rydych wedi byw yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod y 12 mis cyfan cyn diwrnod eich enwebiad a diwrnod yr etholiad.

Anghymhwyster

Ni allwch fod yn ymgeisydd os ydych:

- wedi'ch anghymhwyso rhag bod yn aelod o awdurdod lleol, os ydych yn swyddog cyflogedig neu'n gyflogai i'r awdurdod lleol hwnnw. Fodd bynnag, nid ydych wedi'ch anghymhwyso rhag sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad i awdurdod lleol.
- yn dal swydd sydd wedi'i chyfyngu'n wleidyddol.
- wedi'ch dedfrydu i gyfnod o garchar o dri mis neu fwy, heb yr opsiwn o ddirwy, yn ystod y pum mlynedd cyn y diwrnod pleidleisio.
- wedi'ch anghymhwyso o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.
- yn destun gorchymyn cyfyngiadau methdaliad neu orchymyn dros dro.

Mae'r ystod lawn o anghymwysterau yn gymhleth ac os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch a ydych wedi'ch anghymhwyso, rhaid i chi wneud popeth o fewn eich gallu i wirio nad ydych wedi'ch anghymhwyso cyn cyflwyno'ch papurau enwebu.

Enwebiadau

Gallwch gyflwyno papurau enwebu ar gyfer mwy nag un ward ond ni allwch sefyll i gael eich ethol mewn mwy nag un ward o fewn yr un awdurdod lleol.

Erbyn pryd:-

Rhaid cyflwyno ffurflenni enwebu erbyn 4pm ar y 5^{ed} Ebrill. Gellir eu cyflwyno unrhyw bryd ar ôl 28^{ain} Mawrth rhwng 10.00am a 4.00pm. Os yw'r ymgeiswyr yn dymuno, bydd y Dirprwy Swyddog Canlyniadau yn gwirio eu papurau'n anffurfiol cyn eu derbyn yn ffurfiol.

Ble

Gellir cyflwyno enwebiadau â llaw i'r Swyddog Canlyniadau, Ystafell Rhymni, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7PG neu drwy e-bost i enwebiadau@caerffili.gov.uk

Bydd y Dirprwy Swyddog Canlyniadau hefyd ar gael cyn y cyfnod enwebu i wirio papurau'n anffurfiol yn swyddfeydd y Gwasanaethau Etholiadol, Tŷ Gilfach, William Street, Gilfach, Bargod CF81 8ND. Ffoniwch 01443 864203 i drefnu apwyntiad.

Sut

Gellir cyflwyno ffurflenni enwebu â llaw neu drwy e-bost. Dylent gael eu cyflwyno gan yr ymgeisydd neu gan rywun y maent yn ymddiried ynddo. Os cyflwynir drwy e-bost, cynghorir ymgeiswyr yn gryf bod eu ffurflenni'n cael eu gwirio o flaen llaw gan eu bod yn cael eu hystyried fel rhai a gyflwynir yn ffurfiol unwaith cânt eu danfon drwy e-bost. Mae'r Swyddog Canlyniadau yn argymhell yn gryf y dylai ymgeiswyr, sy'n cyflwyno eu ffurflenni enwebu drwy e-bost, wirio i sicrhau eu bod wedi cael eu derbyn.

Nodwch ei bod yn drosedd gwneud datganiad ffug yn fwrriadol ar bapurau enwebu.

Ffurflen Enwebu

Os ydych yn dymuno sefyll fel ymgeisydd, rhaid i chi gyflwyno ffurflen enwebu a ffurflen cyfeiriad cartref.

Eich enw llawn - Mae hyn yn golygu eich cyfenw ac yna eich enwau eraill yn llawn. Gallai defnyddio blaenlythrennau yn unig arwain at wrthod eich papur enwebu. Hefyd, peidiwch â defnyddio rhagddodiaid fel Mr, Mrs, Dr, Cynghorydd ac ati fel rhan o'ch enw.

Datganiad aelodaeth pleidiau - Rhaid i chi gynnwys datganiad o aelodaeth pleidiau yn nodi lle'r ydych wedi bod yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol ar unrhyw adeg yn y 12 mis diwethaf.

Datganiad:ⁱ Ar y papur enwebu mae'n rhaid i chi gwblhau a llofnodi'r datganiadau canlynol:

- eich bod yn gymwys ar y diwrnod y byddwch yn cwblhau eich papur enwebu, ac ar ddiwrnod yr etholiad, i gael eich ethol yn gynghorydd yn rhinwedd y ffaith eich bod yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad, yn ddinesydd Gweriniaeth Iwerddon, yn ddinesydd perthnasol i'r Undeb neu'n ddinesydd tramor cymwys sydd wedi cyrraedd 18 oed ar ddiwrnod yr etholiad; a'ch bodⁱⁱ;
- yn bodloni o leiaf un o'r cymwysterau i sefyll yn yr etholiad a restrir yn yr adran datganiad ar y papur enwebu. Rhaid i chi nodi pa un neu fwy o'r cymwysterau a) – ch) sy'n berthnasol i chi drwy dicio'r rhai sy'n berthnasol a rhoi llinell drwy'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny.
- nad ydych, hyd eithaf eich gwybodaeth a'ch cred, wedi'ch anghymhwyso rhag cael eich ethol yn gynghorydd

Eich llofnod a llofnod tyst - Rhaid i chi lofnodi eich papur enwebu. Rhaid i'ch llofnod cael tyst; a rhaid i'r tyst roi ei enw/ei henw a chyfeiriad llawn ar y ffurflen cyfeiriad cartrefⁱⁱⁱ. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar bwy all fod yn dyst.

Mae gennych hefyd opsiwn i gynnwys y canlynol ar y ffurflen:

•Disgrifiad plaid gofrestredig (os ydych wedi'ch awdurdodi i ddefnyddio un) neu os ydych yn ymgeisydd annibynnol gallwch ddefnyddio'r gair 'annibynnol' a/neu 'independent'.

•Unrhyw enwau rydych chi'n eu defnyddio'n gyffredin sy'n wahanol i'ch enw gwirioneddol (ac yr hoffech ymddangos ar y papur pleidleisio).

Disgrifiadau

O dan rai amgylchiadau, gallwch gael disgrifiad a fydd yn ymddangos o dan eich manylion ar y papur pleidleisio.

Mae gennych bedwar opsiwn o ran defnyddio disgrifiad:

- 1 Gadewch y rhan ddisgrifiad o'r ffurflen yn wag fel na fydd unrhyw ddisgrifiad yn ymddangos ar y papur pleidleisio (er y bydd hyn yn golygu na fyddwch yn gallu defnyddio arwyddlun os ydych yn sefyll ar ran parti).
- 2 Defnyddiwch y disgrifiad 'Annibynnol' a/neu 'Independent'.
- 3 Os ydych yn cynrychioli plaid wleidyddol gofrestredig, gallwch ddefnyddio enw'r plaid fel y mae wedi'i chofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol.
- 4 Os ydych yn cynrychioli plaid wleidyddol gofrestredig, gallwch ddefnyddio un o ddisgrifiadau'r plaid sydd wedi'i chofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol er y gallwch ychwanegu 'Cymru' neu 'Welsh.'
- 5 Os ydych yn sefyll dros plaid wleidyddol ac yn dewis opsiynau 3 neu 4, rhaid i chi gyflwyno tystysgrif awdurdodi sy'n dangos bod gennych awdurdodiad Swyddog Enwebu'r plaid honno (neu rywun a benodir i weithredu ar ei ran).

Rhaid cyflwyno'r dystysgrif erbyn 4pm ar 5^{ed} Ebrill 2022.

- 6 Os ydych yn dymuno defnyddio arwyddlun plaid mae'n rhaid i chi gyflwyno ffurflen gais ar yr un pryd. Dylai'r cais nodi enw'r plaid wleidyddol a disgrifiad o'r arwyddlun i'w ddefnyddio, fel y'u rhestrir ar gofrestr ar-lein y Comisiwn Etholiadol o bleidiau gwleidyddol. Ni ellir amrywio arwyddluniau cofrestredig mewn unrhyw ffordd

Disgrifiadau ar y cyd

- Gallwch sefyll etholiad ar gyfer mwy nag un plaid a defnyddio disgrifiad ar y cyd
- Bydd angen i chi gael tystysgrif awdurdodi gan y Swyddogion Enwebu ar gyfer y ddwy plaid a rhaid cofrestru'r disgrifiad, gyda'r Comisiwn Etholiadol, fel disgrifiad ar y cyd gan y ddwy plaid.

Ffurflen cyfeiriad cartref

Nid yw'n ofynnol i ymgeiswyr gyhoeddi eu cyfeiriad cartref ar y papur pleidleisio, datganiad o bersonau a enwebwyd a hysbysiad o bleidlais mewn unrhyw etholiadau prif ardal a gynhelir ar neu ar ôl 5^{ed} Mai 2022.

Mae'n ofynnol i chi gwblhau ffurflen cyfeiriad cartref y mae'n rhaid ei chyflwyno gyda'r papur enwebu erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu, sef 4pm ar 5^{ed} Ebrill 2022.

Rhaid i'r ffurflen cyfeiriad cartref nodi:

- eich enw llawn
- unrhyw enwau a ddefnyddir yn gyffredin^{iv}, os caiff y rhain eu cynnwys ar eich ffurflen enwebu
- eich cyfeiriad cartref yn llawn
- eich cyfeiriad cymwys, neu os ydych wedi datgan ar eich ffurflen enwebu eich bod yn bodloni mwy nag un cymhwyster, eich cyfeiriadau cymwys
- pa rai o'r cymwysterau y mae eich cyfeiriad neu'ch cyfeiriadau cymhwysol yn ymwneud â nhw
enw llawn a chyfeiriad cartref y tyst ar eich ffurflen enwebu

Cyfeiriad eich cartref:

- rhaid ei gwblhau'n llawn
- rhaid iddo beidio â chynnwys byrfoddau
- rhaid iddo fod yn gyfeiriad cartref cyfredol
- rhaid iddo beidio â bod yn gyfeiriad busnes (oni bai eich bod yn rhedeg busnes o'ch cartref)

Gallwch ddewis peidio â chyhoeddi eich cyfeiriad cartref ar y datganiad o bersonau a enwebwyd neu'r papur pleidleisio.

Yn yr achos hwn rhaid i'r cyfeiriad cartref ^v gynnwys, yn ogystal â'ch enw llawn a'ch cyfeiriad cartref:

- datganiad, wedi'i lofnodi gennych, sy'n nodi eich bod yn ei gwneud yn ofynnol i'ch cyfeiriad cartref beidio â chael ei gyhoeddi
- enw'r ardal berthnasol y lleolir eich cyfeiriad cartref ynddi (os yw eich cyfeiriad cartref yn y DU)
- os ydych yn byw y tu allan i'r DU, enw'r wlad y mae eich cyfeiriad cartref ynddi

Byddwch yn derbyn llythyr oddi wrth y Swyddog Canlyniadau yn dweud a ydych wedi'ch enwebu'n ddilys ai peidio. Bydd datganiad o bobl a enwebir yn cael ei gyhoeddi ar wefan y cyngor erbyn 4pm ar 5^{ed} Ebrill.

Asiantau

Asiant etholiadol

- Rhaid ei ddatgan i'r Swyddog Canlyniadau cyn 4pm ar 5^{ed} Ebrill.

Asiant pleidleisio

Mae angen i'r Swyddog Canlyniadau gael hysbysiad ysgrifenedig o unrhyw bobl a benodir yn asiantau pleidleisio erbyn 27^{ain} Ebrill.

Asiant Dilysu / Cyfrif

- Mae angen i'r Swyddog Canlyniadau gael hysbysiad ysgrifenedig o unrhyw bersonau a enwebwyd i fod yn bresennol wrth gyfrif y pleidleisiau erbyn 27^{ain} Ebrill.

Pleidleisiau drwy'r Post

Cod Ymddygiad

Ni ddylai unrhyw ymgeisydd neu gefnogwr roi ei hun mewn sefyllfa lle y gellir amau eu gonestrwydd neu eu didwylledd, neu onestrwydd neu ddidwylledd yr ymgeisydd neu'r blaid.

Dynodwyr personol

- Mae'n ofynnol i bleidleiswyr absennol ddarparu llofnod sampl a'u dyddiad geni ar eu cais.
- Caiff y wybodaeth hon ei storio'n electronig a'i gwirio yn erbyn y datganiad diogelwch a ddychwelwyd gyda'r pecyn pleidlais bost a gwblhawyd gan yr etholwr.
- Mae hyn yn ychwanegu camau diogelwch ychwanegol at brosesu ceisiadau a dilysu pleidleisiau a ddychwelwyd.
- Mae'n bwysig bod unrhyw geisiadau a dderbynnir neu becynnau pleidleisio drwy'r post yn cael eu dychwelyd i'r swyddfa etholiadau cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau digon o amser ar gyfer prosesu.

Amserlen

Bydd y pleidleisiau post cyntaf yn cael eu hanfon ar 19^{eg} Ebrill.

Lleoliad Agor – Gwasanaethau Etholiadol, Tŷ Gilfach, William Street, Gilfach, Bargod CF81 8ND.

Cyfnod Agor Cyntaf – Am 3pm ar 22^{ain}, 25^{ain}, 26^{ain}, 27^{ain}, 28^{ain} a 29^{ain} Ebrill bydd y Tîm Etholiadau yn gwirio'r dynodwyr personol. Ar hyn o bryd, bydd y papurau Pleidleisio yn aros yn amlen A.

Ail Gam yr Agor – ar ddydd Sadwrn 30^{ain} Ebrill (a Sul 1^{af} os oes angen) bydd yr holl amlenni A a dderbyniwyd hyd yma yn cael eu hagor a chaiff y papurau pleidleisio eu tynnu (wyneb i lawr). Bydd rhifau'r papur pleidleisio yn cael eu cymharu â'r rhifau a argraffwyd ar yr amlen A.

Bydd Wardiau o hen ardal Islwyn yn dechrau am 9.30am

Bydd Wardiau o hen Gwm Rhymini yn dilyn

Agor Cyfunol - O 3^{ydd} Mai - bydd y tîm etholiadau yn cynnal y ddau gam agor bob dydd. Bydd yr agor terfynol yn y Ganolfan Gyfrif berthnasol am 10pm ar ddiwrnod yr etholiad.

Mae gennych hawl i fynychu'r digwyddiadau hyn a phenodi 2 asiant ychwanegol.

Mae rheoliad 84(6) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001 yn nodi bod

Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau "gadw'r papurau pleidleisio wyneb yn wyneb i lawr" a bydd yn cymryd rhagofalon priodol ar gyfer atal unrhyw berson rhag gweld pleidleisiau'n cael eu gwneud ar bapurau pleidleisio.

Nodwch na fyddwch yn gallu canfod unrhyw batrwm pleidleisio cyn diwedd y bleidlais a byddai ymdrechion i wneud nodiadau'n drosedd.

Dilysu Pleidleisiau a fwriwyd yn y Ganolfan Bleidleisio Hyblyg

Bydd pleidleisiau a fwriwyd yn y ganolfan bleidleisio hyblyg (Tŷ Penallta) ar 30^{ain} Ebrill a 1^{af} Mai yn cael eu dilysu wyneb i waered yn Nhŷ Penallta am 4.30pm ar 1^{af} Mai. Gallwch benodi 1 asiant pleidleisio i arsylwi ar y digwyddiadau.

Bydd y rhain yn cael eu cadw'n ddiogel (mewn ffordd debyg i bleidleisiau post) tan y Cyfrif

Cyfrif Pleidleisiau

- Bydd pleidleisiau ar gyfer y wardiau yn Etholaeth Seneddol Islwyn (Ac Is-adran Aberbargod a Bargod) yn cael eu dilysu / eu cyfrif yng Nghanolfan Hamdden Trecelyn ac ar gyfer y wardiau yn Etholaethau Seneddol Caerffili a Merthyr/Rhymni (Rhan) yng Nghanolfan Hamdden Caerffili.
- Bydd y gwiriad yn dechrau am 9am ddydd Gwener 6^{ed} Mai.
- Bydd y cyfrif ar gyfer holl adrannau'r cyngor yn dilyn Dilysu. Bydd cyfrif y wardiau cymunedol yn cael ei gynnal yng nghanolfan hamdden Caerffili yn unig am 10am ar ddydd Sadwrn 7^{fed} Mai.
- Bydd y ganolfan gyfrif ar agor i ymgeiswyr, asiantau ac arsylwyr o 8.45am ar y 6^{ed} Mai ar gyfer Dilysu.
- Gwnewch yn siŵr bod penodiadau ar gyfer asiantau cyfrif (uchafswm o 2) yn cael eu cyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau cyn y dyddiad cau (27^{ain} Ebrill).
- Bydd pasys diogelwch i chi'ch hun (yr ymgeisydd), partner yr ymgeisydd, asiant yr ymgeisydd ac asiant cyfrif ar gael i'w casglu oddi wrth y Gwasanaethau Etholiadol.

Gwariant ymgeiswyr

Mae terfyn ar faint y gallwch ei wario ar eich ymgyrchu.

Eich terfyn yw £806 a 7c ar gyfer pob etholwr ar y gofrestr ar 27^{ain} Mawrth.

Rhaid i chi roi gwybod i'r Swyddog Canlyniadau am eich gwariant (Dyddiad cau 10^{fed} Mehefin).

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn rhoi arweiniad llawn ar sut i gyfrif am eich gwariant – Amgaeir y Canllaw. Ni ellir hawlio'r arian a wariwyd gennych oddi wrth y Swyddog Canlyniadau.

Cysylltiadau

Swyddog Canlyniadau Mrs C Harrhy	-	01443 864410
Dirprwy Swyddog Canlyniadau (pŵer llawn) – Mr D Street	-	01443 863031
Dirprwy Swyddog Canlyniadau (pŵer llawn) – Mr R Tranter	-	01443 863393
Dirprwy Swyddog Canlyniadau (pŵer llawn) /	-	01443 864405
Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol – Mr D. Beecham	-	
Swyddfa Etholiadau	-	01443 864203

Cysylltiadau'r Comisiwn Etholiadol

- Swyddfa Cymru 029 2034 6800
